
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Cod Ymarfer Dyletswydd PREVENT y Gaplaniaeth a’r Ystafell Weddi

CYNNWYS

CYNNWYS .................................................................................. 1

**1. Cyflwyniad** .................................................................................. 2

**2. Diben** .................................................................................. 2

**3. Cwmpas** .................................................................................. 3

**4. Diffiniadau** .................................................................................. 3

**5. Polisi** .................................................................................. 3

5.1 **Egwyddorion** .................................................................................. 3

5.2 **Darparu Gofal Bugeiliol Aml-ffydd a Chaplaniaeth** .......................... 4

**6. Monitro ac Adolygu** .................................................................................. 5

**7. Camddefnyddio'r Polisi** .................................................................................. 6

**8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill** .................................... 6

*Cymeradwyaeth* .................................................................................. 7

## 1. Cyflwyniad

1.1 O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â materion canllaw Dyletswydd PREVENT gan yr Ysgrifennydd Cartref. O dan adran 29 o'r Ddeddf, rhaid i'r Brifysgol roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.

1.2 Yn aml, mae grwpiau a mudiadau terfysgol yn defnyddio ideoleg eithafol a ddatblygwyd gan grwpiau eithafol. Mewn ymateb i hyn, mae'r Llywodraeth wedi diffinio eithafiaeth yn y strategaeth PREVENT yn "wrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydeinig gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn, parch at ei gilydd a goddefgarwch o wahanol grefyddau a chredoau". O ganlyniad, nod y ddeddfwriaeth PREVENT yw lleihau'r bygythiad i'r DU oherwydd terfysgaeth drwy gymryd camau i atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.

1.3 Mae ein dull gweithredu yn bennaf yn un o ddiogelu lles ein myfyrwyr a'n staff. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y ddyletswydd wedi ei chydbwyso â'n hymrwymiad sylfaenol i ryddid academaidd a rhyddid barn, ynghyd â deddfwriaeth allweddol arall megis y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae dadlau'n rhydd ac yn agored am bynciau sydd yn aml yn rhai dadleuol yn elfen allweddol o fywyd y Brifysgol, a byddwn bob amser yn ceisio caniatáu i ddigwyddiadau o'r fath fynd rhagddynt ar yr amod eu bod o fewn y gyfraith ac nad ydynt yn peri unrhyw risg.

1.4 Paratowyd y Cod Ymarfer hwn i weithio ar y cyd â Pholisi Dyletswydd PREVENT y Brifysgol ac mae'n ystyried rôl newidiol addysg, gan gynnwys mwy o ddibyniaeth ar addysgu ar-lein ac ystafelloedd dosbarth rhithwir ond hefyd yr angen i fyfyrwyr gael man lle gallant gynnal eu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd, gan gynnwys gweddi, adfyfyrio, myfyrdod a chyfarfodydd, mewn man a neilltuwyd i'r dibenion hyn.

## 2. Diben

2.1 Cyflwynwyd y Cod Ymarfer hwn i amlinellu cydymffurfiaeth y Brifysgol â gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r canllawiau cysylltiedig.

2.2 Mae canllawiau PREVENT y Swyddfa Gartref ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnwys yr adrannau canlynol a adlewyrchir ym Mholisi Dyletswydd PREVENT y Drindod Dewi Sant:

- Darparu Gofal Bugeiliol a Chaplaniaeth (gan gynnwys Ystafelloedd Gweddi)
- Monitro ac adolygu cyfleusterau

2.3 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch gweithredu unrhyw agweddau ar y Cod Ymarfer at y Swyddog Arweiniol ar gyfer PREVENT yn y lle cyntaf i gael ymateb.

## 3. Cwmpas

3.1 Bydd y Polisi a'r Cod Ymarfer yn berthnasol i holl aelodau'r Brifysgol, gan gynnwys myfyrwyr, staff, contractwyr, ymwelwyr a gwesteion y Brifysgol.

3.2 Bydd y Polisi yn berthnasol i holl Gampysau'r Brifysgol yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Abertawe, Caerdydd, a'r Canolfannau Dysgu yn Llundain a Birmingham. Yn ogystal, mae'n cynnwys unrhyw fangre sydd, er nad yw'n eiddo i'r Brifysgol nac yn cael ei rheoli ganddi, yn cael ei defnyddio at ddibenion y Brifysgol.

3.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau partner cydweithredol ddatblygu a gweithredu eu polisïau, protocolau a chanllawiau penodol eu hunain fel y bo'n briodol, gyda chanllawiau gan yr Arweinydd PREVENT os oes angen.

## 4. Diffiniadau

4.1 "PREVENT" – yr agenda wrth-radicaleiddio sydd wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth ac a elwir dan enw PREVENT yn y polisi hwn.

4. 2 "Radicaleiddio" – Proses lle daw unigolyn i fabwysiadu safbwyntiau gwleidyddol, cymdeithasol neu grefyddol eithafol, gan arwain at bryder y byddant yn gweithredu'n anghyfreithlon.

4.3 "Ystafell Weddi" – Unrhyw ystafell neu fan, sy'n rhan o unrhyw gampws yn y Drindod Dewi Sant, a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau ffydd neu grefyddol.

4.4 "Ystafell Dawel" – Unrhyw ystafell neu ardal, sy'n rhan o unrhyw gampws yn y Drindod Dewi Sant, a ddefnyddir ar gyfer unrhyw gyfnodau o fyfyrio neu adfyfyrio tawel.

## 5. Polisi

### 5.1 Egwyddorion

5.1.1 Mae'r brifysgol yn derbyn ei chyfrifoldeb cyfreithiol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Wrth dderbyn y cyfrifoldeb hwn, rhaid iddi hefyd gydbwyso gofynion manwl PREVENT â'i chenhadaeth graidd er mwyn sicrhau y cedwir safonau sylfaenol penodol sy'n hanfodol i gymuned academaidd ffyniannus.

5.1.2 Yn rhan o hyn, mae'r Brifysgol yn gwneud darpariaeth i staff a myfyrwyr ymarfer eu crefydd, drwy ddarparu Gwasanaethau Caplaniaeth, Capeli, ystafelloedd Gweddi a chyfleusterau ystafell dawel. Mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn sicrhau y dylid rhoi'r un amlygrwydd a thriniaeth gyfartal i bob ffydd, ac na ddylid goddef anogaeth i gasineb neu drais tuag at ymarferwyr unrhyw grefydd. Er mwyn sicrhau cydbwysedd cyfartal a darpariaeth deg a diogelwch i bawb, mae angen goruchwylio a rheoli'r defnydd o ystafelloedd unigol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd ar bob campws mewn modd cyfrifol, gan gynnwys yr angen i amddiffyn staff a myfyrwyr rhag unrhyw fath o bwysau crefyddol diangen.

## 5.2 Darparu Gofal Bugeiliol Aml-ffydd a Chaplaniaeth

5.2.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu gofal bugeiliol, gan gynnwys caplaniaeth, i gefnogi lles a llesiant ein holl fyfyrwyr.

5.2.2 Mae gan bob un o'r Campysau yn ne Cymru Weinidog o'r Eglwys yng Nghymru, a fyddai'n arwain y gwaith o ddarparu cymorth Caplaniaeth.

5.2.3 Datblygwyd cysylltiadau â Chyngor Mwslimaidd Cymru i ddarparu, os bydd angen, gysylltedd, cymorth ac arweiniad i'n myfyrwyr Islamaidd ar draws holl gampysau Cymru.

5.2.4 Mae gan bobl ar gampysau Birmingham, nad ydynt yn rhai preswyl, fynediad at gymorth sy'n gysylltiedig â ffydd mewn mosgiau sy'n lleol i'r canolfannau dysgu, yn ogystal â'r gallu i fanteisio ar gymorth sy'n gysylltiedig â ffydd yn eu haddoldai lleol. Mae'r staff yn ymwybodol o hyn a gallant hwyluso cymorth os bydd angen.

5.2.5 Mae myfyrwyr y Drindod Dewi Sant Llundain yn ddibreswyl a gallent fanteisio gymorth sy'n gysylltiedig â ffydd yn eu haddoldai lleol. Mae'r staff yn ymwybodol o hyn a gallant hwyluso cymorth os bydd angen.

## 5.3 Darparu cyfleusterau sy'n gysylltiedig â ffydd

5.3.1 Bydd y Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i unrhyw ystafelloedd ac ardaloedd ar holl Gampysau'r Drindod Dewi Sant ac adeiladau a reolir gan y Brifysgol, a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd, ni waeth beth fo'r ffydd neu'r grefydd sy'n cael ei hymarfer.

5.3.2 Gall y Brifysgol ddynodi ystafelloedd yn fannau Ystafell Weddi dim ond trwy sefydlu proses gynllunio sefydledig a weithredir gan adran Weithrediadau'r Brifysgol neu drwy benderfyniad ffurfiol gan y Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr, neu is-bwyllgor enwebedig.

5.3.3 Mae'r Drindod Dewi Sant yn derbyn bod nifer o safleoedd sefydledig ar gampysau Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, lle mae myfyrwyr y Brifysgol, aelodau staff a'r gymuned leol yn addoli'n rheolaidd. Y safleoedd hyn yw:

Capel y Brifysgol, Yr Hen Goleg, Campws Caerfyrddin
Capel Dewi Sant y Brifysgol, Campws Llambed
Mosg, Stryd y Coleg, Llambed

Er bod y safleoedd hyn yn rhan o ystâd y Brifysgol, maent yn endidau annibynnol ac ystyrir eu bod y tu allan i gwmpas dibenion y weithdrefn hon, ond ymgynghorwyd â Chaplaniaid y Brifysgol a Phwyllgor Rheoli'r Mosg ac maent wedi cytuno i gydweithio â'r Brifysgol wrth weithredu'r canllawiau hyn.

5.3.4 Ni ddylai unrhyw ystafelloedd defnydd hyblyg gael eu cadw na'u marchnata gan un grŵp neu grefydd yn unig.

5.3.5 Dylai'r holl staff, myfyrwyr a defnyddwyr eraill, gan gynnwys y rhai a wahoddir i arwain gweddïau neu i siarad yn rhan o unrhyw wasanaeth crefyddol, fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r Brifysgol ynghyd â'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Siaradwyr Allanol,

Rhyddid i Lefaru, gofynion Cynwysoldeb a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, a dylent fod yn ymwybodol bod defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol yn dynodi eu cytundeb i gydymffurfio â'r gweithdrefnau a'r gofynion hyn.

5.3.6 Rhaid i'r gwahoddiad i bobl arwain gweddïau neu annerch cyfarfodydd yn yr ystafelloedd gweddi fod drwy ymgynghori a chytuno bob amser ag awdurdod priodol y Brifysgol (Swyddog Arweiniol PREVENT) ac ar y cyd â Chod Ymarfer y Brifysgol sy'n ymwneud â Siaradwyr Allanol a gweithdrefnau mewn perthynas â Rhyddid i Lefaru a Chynwysoldeb.

5.3.7 Mae'n ddymunol, ac eithrio llyfrau gweddi a'r ysgrythurau, y dylai posteri, deunyddiau darllen a chyhoeddiadau sy'n cael eu harddangos yn yr ystafelloedd gweddi fod yn Gymraeg neu'n Saesneg. Gwneir eithriadau ar gyfer gwaith sydd â chyfieithiad ar gael.

5.3.8 Bydd yr holl ystafelloedd gweddi ac ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â ffydd yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Bydd unrhyw bosteri, hysbysiadau neu unrhyw fath arall o ddeunydd a arddangosir y gellir ei ystyried yn dramgwyddus neu'n ymfflamychol yn cael eu dileu.

5.3.9 Dim ond at y dibenion a ddiffinnir y dylid defnyddio ystafelloedd gweddi ac ystafelloedd tawel. Rhaid cynnal yr holl weithgareddau eraill, boed yn rhai cymdeithasol neu'n rhai hamdden, mewn ystafelloedd eraill y cytunwyd y gellir eu harchebu yn y Brifysgol.

5.3.10 Rhaid cadw'r ystafelloedd yn lân ac yn daclus, a chymryd gofal arbennig gyda golwg ar iechyd a diogelwch: e.e. osgoi ceblau a pheryglon eraill. Rhaid cadw pob mynedfa ac allanfa yn glir o rwystrau a chaiff yr holl sbwriel ei waredu'n rheolaidd ac yn briodol.

5.3.11 Dylid cyfeirio unrhyw ddifrod i'r cyfleusterau neu eu cynnwys, ac ymholiadau ynghylch gweithredu unrhyw agweddau ar y Polisi at y Swyddog Arweiniol ar gyfer ymateb gweithredol PREVENT y Brifysgol.

5.3.12 Os bydd unrhyw aelod o'r staff, myfyriwr neu ddefnyddiwr arall yn teimlo, o ganlyniad i'r protocol hwn, eu bod wedi'u tramgwyddo gan y Cod Ymarfer hwn, gallant apelio at Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol.

5.3.13 Rhaid cyflwyno'r Apêl yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i'r gŵyn ddigwydd. Dylid e-bostio'r apêl at Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol, governance@pcydds.ac.uk.

## 6. Monitro ac Adolygu

6.1 CCAUC sy'n monitro ymateb y Brifysgol yn allanol i weithredu'r Canllawiau PREVENT ar ran Llywodraeth Cymru.

6.2 Goruchwylir diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr y Brifysgol gan Gorff Llywodraethu'r Drindod Dewi Sant, Cyngor y Brifysgol, sy'n darparu arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth o effeithiolrwydd y Polisi. Mae'r Cyngor yn adolygu cynnydd o bryd i'w gilydd o ran y Polisi ac yn goruchwylio'r Asesiad Risg a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn cymryd rhan yng ngweithgarwch monitro blynyddol CCAUC mewn perthynas â PREVENT ac mae Cadeirydd y Cyngor yn gyfrifol am gadarnhau cydymffurfiaeth y Brifysgol yn flynyddol.

6.3 Fforwm Diogelu'r Brifysgol sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi ac mae'n uwchgyfeirio gwybodaeth a manylion perthnasol i Fwrdd Arweinyddiaeth Weithredol y Brifysgol yn ôl y gofyn.

6.4 Bydd y gweithgarwch gweithredol o ddydd i ddydd mewn perthynas â'r ddyletswydd PREVENT yn cael ei gydlynu gan Swyddog Arweiniol PREVENT enwebedig y Brifysgol. Bydd y Swyddog Arweiniol yn gweithio o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Diogelu.

6.5 Bydd holl staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr y Brifysgol yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion pob agwedd ar y Polisi hwn.

## 7. Camddefnyddio'r Polisi

7.1 Mae angen i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gydymffurfio â gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, ynghylch sicrhau nad yw ein myfyrwyr yn agored i ideoleg eithafol a bod gan y Brifysgol weithdrefnau ar waith i fonitro ac ymateb i unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg.

7.2 Gallai methu ag ymateb yn effeithiol arwain at osod 'Mesurau Arbennig' ychwanegol ar y Brifysgol gan ein Corff Monitro.

7.3 Gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw fyfyriwr neu aelod o staff sy'n methu â chydymffurfio'n fwriadol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Polisi hwn.

## 8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

8.1 Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â'i chyfrifoldebau PREVENT a cheir nifer o bolisïau sefydliadol sy'n rhyngberthynol, yn cynnwys:

- Polisi Disgyblu Myfyrwyr (Camymddwyn Anacademaidd)
- Polisi Diogelu
- Polisi Cymorth i Astudio
- Polisi Addasrwydd i Ymarfer
- Polisi Defnydd Derbyniol Technoleg a Systemau Gwybodaeth
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cod Ymarfer Siaradwyr a Digwyddiadau Allanol

Awdur(on) y polisi:

**.................................................................................... Teitl Swydd.......................**

**.................................................................................... Teitl Swydd.......................**

Rheoli fersiynau'r ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Ymateb i Ganllawiau Dyletswydd PREVENT Addysg Uwch | AT/RhD | 26 Ebrill 2021 |
| 0.2 | Cymeradwyaeth yn y PPM | AT/RhD | 9 Mai 2021 |
| 0.3 | Ychwanegwyd testun ychwanegol yn adran 5.3 yn ymwneud â dynodi ystafelloedd gweddi a defnyddio a marchnata ystafelloedd amlddefnydd. | RhD | 1 Mai 2023 |
| | | | |

Statws presennol y Polisi: Angen cymeradwyaeth yn y PPM

Mae'r Polisi'n berthnasol i**:** AU

Dyddiad ei gadarnhau: 9/5/2021

Dyddiad y daw i rym: 9/5/2021

Dyddiad adolygu'r polisi: 9/5/2022

I'w gyhoeddi**:** ar wefan y Drindod Dewi Sant

*Dileer fel y bo'n briodol
** mewnosoder pan fydd ar gael

---

***Cymeradwyaeth***

*Caiff y polisi ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os yw'r polisi'n effeithio ar staff, dylid gofyn am gyngor gan AD o'r cychwyn cyntaf i ganfod a oes angen ymgynghori yn y Cydbwyllgor Ymgynghori. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cam mwyaf priodol i ymgynghori â'r Cydbwyllgor Ymgynghori ac ynghylch a oes angen cymeradwyaeth gan y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd*

*Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio yn cwblhau'r adran isod.*

---

***I'w gwblhau gan y Tîm Polisi a Chynllunio***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau ☐*

Lleoliad y ddogfen: Y Llawlyfr Ansawdd Academaidd | Y Drindod Dewi Sant (cysylltiedig â Phennod 12)

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau* ☐

*Mae Asesiad  o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi'i gwblhau* ☐

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:*